Erthygl 14 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad

14.1 Dyletswydd i Fonitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac yn adolygu gweithredu'r Cyfansoddiad i sicrhau y gweithredir nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn llawn, ac i lunio argymhellion ar gyfer newidiadau er mwyn sicrhau y cyflawnir y dibenion a nodwyd yn Erthygl 1 i raddau helaethach.

Wrth gyflawni'r dasg hon bydd y swyddog monitro:

- yn arsylwi cyfarfodydd gwahanol rannau o'r strwythur aelodau a swyddogion; yn ymgymryd â llwybr archwilio ar sampl o benderfyniadau;

- yn cofnodi ac yn dadansoddi materion a godwyd gydag ef/gyda hi gan aelodau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill; ac

- yn cymharu arferion yn yr Awdurdod hwn â'r rhai a geir mewn Awdurdodau cymharol eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arfer da.

14.2 Newidiadau i'r Cyfansoddiad

(a) Cymeradwyo
Ni chymeradwyir newidiadau i'r Cyfansoddiad gan y Cyngor llawn hyd nes bo'r cynnig wedi ei ystyried gan y Swyddog Monitro drwy ymgynghori a chytuno â Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad.

(b) Newid o Weithrediaeth ar ffurf Arweinydd a Chabient i drefniadau eraill, neu i'r gwrthwyneb
Bydd y Cyngor yn cymryd camau rhesymol i ymgynghori â'r etholwyr lleol ac eraill sydd â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion i'w hystyried gan Senedd Cymru.